**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS Cadeirydd,
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddLJC@senedd.cymru

4 Chwefror 2022

Annwyl Huw,

Ysgrifennaf i roi gwybod i'r Pwyllgor o'r bwriad i gydsynio i Lywodraeth y DU wneud a gosod Rheoliadau Amodau Ffytoiechydol (Diwygio) 2022 erbyn 8 Chwefror 2022.

Rwyf wedi cael llythyr oddi wrth Victoria Prentis, AS, y Gweinidog Gwladol dros Ffermio, Pysgodfeydd a Bwyd y gofyn inni gydsynio i'r Rheoliadau hyn. Mae'r Rheoliadau yn ymwneud â pholisi datganoledig a byddant yn gymwys i Gymru. Gallai Gweinidogion Cymru wneud y darpariaethau drwy arfer ein pwerau ein hunain. Bydd y Rheoliadau yn gymwys i Gymru, Lloegr a'r Alban ac mae cais tebyg am gydsyniad wedi'i anfon at Weinidogion yr Alban.

Gwneir y Rheoliadau drwy arfer y pwerau a roddwyd gan Erthyglau 5(3), 30(1), 32(3), 37(5), 41(3), 42(3), 54(3), 72(3) a 105(6) o Reoliad (UE) 2016/2031 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar fesurau amddiffynnol yn erbyn plâu planhigion.

Bydd y diwygiadau'n cynnwys mesurau plâu sy'n gofyn am weithredu brys ac nad yw'n frys, atal plâu planhigion rhag cael eu cyflwyno, diweddaru gofynion mewnforio a symud plâu penodol a dadreoleiddio plâu nad ydynt bellach yn fygythiad i fioddiogelwch Prydain Fawr. O ganlyniad, bydd y Rheoliadau hyn yn diogelu bioddiogelwch ac yn diogelu masnach rhwng Prydain Fawr a thrydydd gwledydd perthnasol a Rwsia drwy gyflwyno mesurau diogelu pellach ar gyfer nwyddau planhigion sydd mewn perygl. Mae'r Offeryn Statudol (OS) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol a disgwylir iddo gael ei osod gerbron y Senedd ar 8 Chwefror 2022 gyda dyddiad cychwyn o 2 Mawrth 2022.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Er mai egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru, y tro hwn, ystyrir ei bod yn briodol i sylwedd y gwelliannau fod yn gymwys i Gymru gan nad oes gwahaniaeth o ran polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r mater hwn. Mae hyn yn sicrhau llyfr statud cydlynol a chyson gyda'r rheoliadau i'w gweld mewn un offeryn. Credaf nad deddfu ar wahân ar gyfer Cymru fyddai'r ffordd fwyaf priodol o weithredu'r newidiadau angenrheidiol nac ychwaith yn ddefnydd doeth o adnoddau Llywodraeth Cymru o ystyried blaenoriaethau pwysig eraill.

Rwyf wedi ysgrifennu yn yr un modd at Llyr Gruffydd AS, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith.

Yn gywir



**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change